# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, R.Meirion Jones, Bryan Owen a P S Rogers |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Y Gymuned a Gwella Gwasanaethau),<br>Penneth Proffesiwn – Adnoddau Dynol,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, T.Ll. Hughes MBE a R G Parry OBE FRAgS |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Neb |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Gwnaeth y Cynghorydd R. Meirion Jones ddatganiad o ddiddordeb personol ond yn dilyn cyngor cyfreithiol, ystyriwyd nad oedd ei adnabyddiaeth o'r ymgeisydd mewn perthynas ag eitem 4 yn un a oedd yn rhagfarnu.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd, 2017.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod :-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau isod oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 APWYNTIO STAFF**

- **Pennaeth Dysgu**

  Rhoddwyd cyfweliad i un ymgeisydd yn dilyn adborth o'r broses benodi.

  Cafwyd cyflwyniad gan yr ymgeisydd, atebodd gwestiynau ar y cyflwyniad hwnnw ac yna fe atebodd ef gyfres o gwestiynau a ofynnwyd gan y Pwyllgor.

  Yn dilyn y cyfweliad, **PENDERFYNWYD penodi Mr. Arwyn Williams i'r swydd uchod ar y cyflog cyfredol ac o ddyddiad i'w benderfynu arno.**

- **Pennaeth Gwasanaethau Tai**

  Cafwyd adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr ar y swydd uchod.

**PENDERFYNWYD hysbysebu'r swydd yn fewnol yn y lle cyntaf.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**